

Adroddiad i'r	Cabinet
Dyddiad y cyfarfod	24 Hydref 2023
Aelod Arweiniol / Swyddog	Y Cyng Emrys Wynne: Aelod Arweiniol y Gymraeg, Diwylliant a Threftadaeth / Liz Grieve: Pennaeth Tai a Chymunedau
Awdur yr adroddiad	Craig Berry: Rheolwr y Gwasanaeth Archifau ar y Cyd
Teitl	Datrysiaid Storio ar gyfer Casgliad yr Archifau

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad yn sôn am drefniadau storio casgliadau ein harchifau ar gyfer y dyfodol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae angen gwneud penderfyniad am ddewis a ffefrir y Cyngor ar gyfer storio casgliadau ein harchifau.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Mae'r Cabinet yn cefnogi Dewis 2 fel y dewis a ffefrir, h.y. (yn amodol ar gais llwyddiannus am gyllid, gweler 3.2 isod) i adeiladu cyfleuster archifau newydd ar y cyd ar gampws Theatr Clwyd yn yr Wyddgrug, i symud casgliadau ein harchifau o Garchar Rhuthun, a datblygu cynllun gweithgareddau sy'n seiliedig ar y gymuned i gyrraedd cymunedau ledled Sir Ddinbych. Mae crynodeb manwl o'r dewisiadau sydd ar gael ynghlwm fel Atodiad A.

3.2. Bod y Cabinet yn awdurdodi swyddogion i gyflwyno cais am gyllid ar y cyd gyda Chyngor Sir y Fflint i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol Cymru, yn ceisio grant cyfalaf o £7 miliwn i ariannu adeilad di-garbon pwrpasol ar gampws Theatr Clwyd.

- 3.3. Bod y Cabinet yn dyrannu £2,052,358 o gyllid cyfalaf CSDd fel ein harian cyfatebol tuag at y cyfleuster archifau newydd ar y cyd, yn amodol ar gais llwyddiannus am gyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.
- 3.4. Bod y Cabinet yn cefnogi'r gwaith o baratoi'r cynlluniau i wella'r cynnig i ymwelwyr o fewn Carchar Rhuthun, gan gynnwys cadw presenoldeb yr archifau ar y safle.
- 3.5. Bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad C) fel rhan o'i ystyriaethau.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Mae gan y Cyngor ddyletswydd ddeddfwriaethol i gasglu, cadw a gwneud dogfennau o bwysigrwydd hanesyddol yn hygyrch. Mae'r ddyletswydd hon yn destun i safonau llym gydag asesiadau achrediad rheolaidd i fonitro cydymffurfedd.
- 4.2. Mae CSDd a CSFf wedi bod yn cydweithio am nifer o flynyddoedd i greu gwasanaeth archifau gwell a mwy cynaliadwy. Mae hyn wedi arwain at greu gwasanaeth ar y cyd o'r enw Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru (AGDdC). O wybod bod y ddau Gyngor yn wynebu problemau tebyg gydag adeiladau nad ydynt yn addas at y diben mwyach yn nhermau storio deunyddiau'r archif, mae dymuniad i ganfod datrysiad ar y cyd.
- 4.3. Mae Sir Ddinbych yn storio deunyddiau archif yng Ngharchar Rhuthun. Mae nifer o broblemau gyda'r trefniant hwn, (i) mae'r storfa'n llawn bellach, (ii) mae'r system rheoli amgylcheddol a systemau ataliad tân nwy, sy'n angenrheidiol i gynnal ansawdd yr aer a gwarchod y deunyddiau, wedi dod i ddiwedd eu hoes, (iii) nid yw'r cynllun yn addas.
- 4.4. O ganlyniad, nid yw'r trefniadau'n gynaliadwy, ac mae angen cytuno ar ddatrysiad. Mae Atodiad A yn ystyried yr amryw ddewis sydd ar gael i'r Cyngor, ac mae Atodiad J yn dangos cymhariaeth o ddewisiadau yn erbyn meini prawf allweddol.
- 4.5. Mae'n glir nad oes dewis "gwneud dim", oherwydd nid oes modd i'r trefniadau presennol fodloni ein dyletswydd statudol. Mae'r holl ddewisiadau sydd ar gael yn cario costau sylweddol, ac mae ganddynt risgiau sy'n gysylltiedig i gostau cynyddol posib, amhariad i'r gwasanaeth a cholli achrediad, ac ati. Nid oes datrysiad delfrydol, heb gostau.
- 4.6. Yn ychwanegol at gefnogaeth y Grŵp Craffu Cyfalaf yn dilyn adolygiad o'r achos busnes, mae swyddogion yn argymhell Dewis 2, adeilad archifau sengl, ar y cyd gyda

CSFf, gan fod hwn yn darparu'r gwerth gorau am arian. Bydd buddsoddiad cyfalaf o £2.1 miliwn gan CSDd, ar gost o tua £138,000 y flwyddyn yn cyflawni diogelwch hirdymor a storfa ar gyfer casgliadau ein harchifau at y dyfodol. Bydd hyn, nid yn unig yn diogelu ein statws achrediad yn yr hirdymor, ond hefyd yn darparu cadernid gwasanaeth; rhannu costau gweithredu; cyfle ar gyfer arbedion effeithlonrwydd; a gwasanaeth gwell ac estynedig ar gyfer preswylwyr Sir Ddinbych.

- 4.7. Bydd pob dewis arall yn costio mwy na Dewis 2, neu bydd y dewisiadau sy'n costio llai ddim yn costio llawer llai, ac mae'r costau hynny'n debygol o gynyddu dros amser.
- 4.8. Mae Atodiad B yn darparu rhagor o wybodaeth ar faterion sy'n ymwneud â gwasanaeth archifau CSDd.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

- 5.1. Mae Dewis arfaethedig 2 yn cefnogi Thema 'Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' yn y Cynllun Corfforaethol.
- 5.2. Bydd y prosiect yn gwneud cyfraniad niwtral (ond yn fwy tebygol o fod yn gyfraniad positif) tuag at y Cyngor yn dod yn ddi-garbon ac yn Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1. Amcangyfrifir y bydd cost y prosiect yn £12,520,896 miliwn, gyda chyfraniad CSDd yn £2,052,358, sef 16.39% o'r cyfanswm. Yn nhermau'r Benthycia Darbodus sy'n angenrheidiol i godi ein cyfraniad cyfalaf, mae hyn yn cyfateb i £138,000 y flwyddyn am y 25 mlynedd nesaf.
- 6.2. Mae Atodiad D yn darparu rhagor o fanylion o'r costau fesul Dewis.

6.3. Effaith ar Wasanaethau Eraill:

Y Gyfraith a Chaffael: angen cefnogaeth mewn perthynas â threfniadau dan gontract mewn perthynas â chyllid grant a'r trefniadau adeiladu ar y cyd rhwng y cynghorau.

Cyllid: angen cefnogaeth mewn perthynas â'r sefydliad a chefnogaeth y gwasanaethau ar y cyd.

TGCh: angen cefnogaeth a mewnbwn mewn perthynas â datrysiad a chymhwysiad TGCh yn y dyfodol.

Dyluniad ac Adeiladu: mewnbwn i gaffael asiant y cyflogwr a datblygiad yr adeilad.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. O wybod bod AGDdC yn wasanaeth is-ranbarthol, cafodd yr Asesiad o'r Effaith ar Les ei ystyried ar draws y ddwy sir. Dengys yr asesiad yn Atodiad C ac mae'r canlyniadau fel a ganlyn:

- i. Sir Ddinbych a Sir y Fflint llewyrchus - Cadarnhaol
- ii. Sir Ddinbych a Sir y Fflint gwydn – Niwtral
- iii. Sir Ddinbych a Sir y Fflint iachach - Cadarnhaol
- iv. Sir Ddinbych a Sir y Fflint mwy cyfartal - Cadarnhaol
- v. Sir Ddinbych a Sir y Fflint o gymunedau cydlynol - Cadarnhaol
- vi. Sir Ddinbych a Sir y Fflint â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu - Cadarnhaol
- vii. Sir Ddinbych a Sir y Fflint sy'n gyfrifol yn fyd-eang – Niwtral

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

- Y Tîm Gweithredol Corfforaethol, Gorffennaf 2021, Hydref 2022
- Grŵp Gwella Gwasanaeth, Medi 2019, Rhagfyr 2020, Ionawr 2022
- Briffio Cabinet - Tachwedd 2018, Hydref 2019, Tachwedd 2020, Ionawr 2023, Medi 2023
- Cabinet, Tachwedd 2020
- Grŵp Craffu Cyfalaf, Medi 2023

- Grŵp Rheoli Asedau - Gorffennaf 2019
- Pwyllgor Craffu Cymunedau – Hydref 2019 a Hydref 2020
- Grŵp Ardal Aelodau Rhuthun - Hydref 2020 a Thachwedd 2022
- Arolygon ar-lein y cyhoedd (2019 a 2020)

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'r penderfyniad yn un sydd angen gwir flaenoriaeth. Bydd dyrannu cyllid i'r prosiect hwn o'r naill ffynhonnell neu'r llall naill ai'n cyfyngu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer prosiectau eraill yn y dyfodol neu'n cynyddu'r bwlch cyllidebol na ellir ond ei ariannu naill ai trwy gynyddu'r Dreth Gyngor neu wneud arbedion gwasanaeth. Bydd y cyllid yn ffurfio rhan o'r cynllun cyfalaf cyffredinol a'r gofyniad am fenthyciad cyfalaf. Os yw Dewis 2 yn cael ei gymeradwyo, a bydd y cais am grant yn llwyddiannus gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, bydd angen nodi cyllideb sylfaenol o £138,637 am gostau benthycia ar gyfer gofyniad cyllid cyfatebol CSDd. Serch hynny, ers trafodwyd y busnes gwreiddiol, mae'r tîm prosiect wedi cael eu herio i archwilio pob dewis yn llawn. Erbyn hyn, mae swyddogion wedi cynnal y gwaith hwn, ac mae'n ymddangos nad oes dewis 'heb gost' neu 'cost isel'. Mae gan y dewis a ffeirir y fantais o drosoli cyllid allanol sylweddol (os yw'r cais yn llwyddiannus), gydag ased sy'n addas at y diben yn yr hirdymor. Dylid nodi na fydd angen benthycia darbodus nes 2026/27.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Cyfeiriwch at y gofrestr risg sydd wedi'i atodi yn Atodiad E.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) - Pŵer cymhwysedd cyffredinol i Awdurdodau Lleol

11.2. Deddf Llywodraeth Leol (Cofnodion) 1962 (i) – bod cofnodion yn eu meddiant ar gael ar gyfer astudiaeth a (ii) cyfrannu tuag at dreuliau unigolyn sydd yn gofalu am gofnodion lleol.

11.3. Mae Adran 224 yn Neddf Llywodraeth Leol 1972 yn gofyn bod pob prif gynghorau yn gwneud trefniadau ar gyfer gofal a chadwraeth o unrhyw ddogfennau.